



**Mynychwyr (drwy gysylltiad fideo):**

David B Jones (Cadeirydd), Philip Blaker (y 30 munud cyntaf), Isabel Nisbet, Jayne Woods, Claire Morgan.

**Yn Bresennol (drwy gysylltiad fideo):**

Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS),

**Ymddiheuriadau:**

Dim

**1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant, Papurau i'w Nodi**

1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i bumed cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant newydd. Nid oedd unrhyw gamau heb eu cymryd (darperir asesiadau effaith integredig yn barhaus pan fyddant yn barod).

**2. Cofnodion**

2.1. Cytunwyd ar y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod blaenorol.

**3. Diweddariad ar y gwaith hyd yma – Ymgynghori ac ESW**

3.1. Ymgynghoriad: Rhoddodd PB y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Ar 6 Mai derbyniwyd 1947 o ymatebion wedi'u cwblhau, 1344 i'r prif arolwg (gan ddysgwyr, rhieni a gweithwyr addysg proffesiynol) a 503 i'r fersiwn Cyfeillgar i Bobl Ifanc (roedd 90% o'r rheini yn ddysgwyr). Gydag ymatebion rhannol roedd y cyfanswm dros 2600. Os oedd ymatebydd wedi ateb rhai o'r cwestiynau, yna byddai'r ymateb yn cael ei gynnwys yn y dadansoddiad, os nad oedd wedi ymateb i unrhyw gwestiynau, yna ni fyddai'r ymateb yn cael ei gyfrif na'i gynnwys.

3.2. Nodwyd bod gwaith ar y gweill i ddadansoddi'r ymatebion ysgrifenedig, ac y bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 13 Mai.

3.3. Aeth PB drwy'r ymatebion i bob cwestiwn a'r cyfrannau cytundeb/anghytundeb presennol. Y ddau faes dadleuol o hyd oedd (i) na allai dysgwyr apelio yn erbyn dyfarniadau proffesiynol a (ii) mai dim ond canolfannau a allai gyflwyno apeliadau.

3.4. Dywedodd JR fod materion tebyg wedi'u codi yn yr ymatebion i ymgynghoriad Ofqual. Mae Ofqual i fod i gyhoeddi eu penderfyniadau ar 15 Mai a byddant yn rhannu eu syniadau gyda ni ymlaen llaw.

- 3.5. Trafododd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen y materion yn fanylach. Nodwyd bod cyngor cyfreithiol pellach yn cael ei geisio ar y potensial ar gyfer adolygiad barnwrol. Cytunodd aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen nad oedd herio dyfarniadau academiaidd yn debygol o lwyddo ond roeddent yn teimlo y gallai fod her ar sail proses. Cytunodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen y dylid diweddarau'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf er mwyn gallu trafod y materion yn ehangach cyn drafftio adroddiad penderfyniad Cymwysterau Cymru. Roedd yr adroddiad penderfyniad i fod i gael ei gyhoeddi ganol mis Mehefin. [Yn dilyn y cyfarfod, gofynnodd y Cadeirydd i'r adroddiad penderfyniadau drafft terfynol gael ei gyhoeddi i brif bwyllgor gweithredol y Bwrdd i'w gymeradwyo, ac i Llywodraeth Cymru gael y wybodaeth ddiweddaraf].
- 3.6. Roedd PB a JR wedi mynychu'r cyfarfod pedair gwlad yn ddiweddar lle nododd SQA ei fod yn caniatáu apeliadau gan ddysgwyr. Roedd hyn yn adlewyrchu agweddau ar eu hymagwedd bresennol a hanesyddol, ac yn cydnabod bod pob dysgwr yn profi 'amgylchiadau eithriadol'. Roedd hyn yn peri pryder i'r gwledydd eraill a oedd yn ceisio sicrhau dull cyffredin.
- 3.7. Nododd IN fod yr ymatebion presennol i'r ymgynghoriad yn dangos diffyg hyder mewn safoni ac awgrymodd y dylai'r sefydliad ystyried sut yr oedd yn cyfathrebu ynghylch agwedd hon.
- 3.8. Modelu Cadarnhaodd JR fod gwaith ar fodelu yn parhau. Roedd Llywodraeth Cymru am ddarparu data cyrhaeddiad blaenorol hanesyddol yn ystod yr wythnos ganlynol. Roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried rhyddhau'r data personol cyfredol manylach fel cais cam 2. Nododd JR fod y data hwn yn hanfodol i'r broses.
- 3.9. Ffrwd waith 2020/21 Nododd JR fod Ofqual wedi cynnal cyfarfod yr wythnos hon gyda chyrff dyfarnu. Roedd Cymwysterau Cymru yn edrych ar gymwysterau Cymru yn unig a byddai'n cyhoeddi 'blog' yr wythnos hon gyda diweddiariad cyn hanner tymor. Byddai'r gwaith yn ystyried senarios fesul pwnc i ystyried y ffordd orau o amddiffyn dysgwyr y flwyddyn nesaf.
- 3.10. Cymwysterau Galwedigaethol Nododd JR fod Ofqual yn gweithio gyda Chyrff Dyfarnu i gwblhau categorïau o gymwysterau yr wythnos nesaf (dilyniant, cymhwysedd proffesiynol neu gymysgedd) a chadarnhau naill ai cyfrifo, addasu neu ohirio cynigion ar gyfer dyfarniadau. Byddai Cymwysterau Cymru yn mabwysiadu dull tebyg o ymdrin â chymwysterau Cymru yn unig er mwyn sicrhau cysondeb. Roedd disgwyl i Ofqual gyhoeddi ei benderfyniadau ar ei ymgynghoriad Cymwysterau Galwedigaethol ar 22 Mai. Roedd nifer yr ymholiadau'n lleihau, ond byddai pryderon yn parhau nes i benderfyniad ar ddyfarniadau BTEC gael ei gyhoeddi.

#### 4. Cofrestr Risg COVID 19

- 4.1. Nodwyd y byddai'r gofrestr risg yn cael ei hystyried gan y prif Fwrdd ym mis Mai.

#### 5. Cyfathrebu

- 5.1. Bu gostyngiad yn nifer yr ymholiadau, roedd y ffocws ar symud i'r ffordd y dylid darparu data canolfannau, ac roedd cyrff dyfarnu i fod i gyhoeddi cyfathrebiadau yr wythnos nesaf.
- 5.2. Roedd Ofqual wedi cyhoeddi gohebiaeth am ymgeiswyr preifat. Mae PB a JR wedi bod mewn trafodaethau gyda cholegau i annog dull mynediad mwy hyblyg eleni. Roedd sgwrs debyg yn digwydd gyda darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon. Nododd IN ei bod yn bwysig cynnal trafodaethau hefyd gyda SAUau.

## **6. Unrhyw Fater Arall**

- 6.1. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu ac am eu cyfraniad i'r cyfarfod. Cytunwyd na fyddai cyfarfod yr wythnos nesaf ac y byddai unrhyw ddyddiadau yn y dyfodol yn cael eu hystyried i gyd-fynd â phenderfyniadau allweddol. Nid oedd unrhyw fater arall.

### **Dyddiad y cyfarfod nesaf: I'w gadarnhau**